

# Pecyn Dogfen Gyhoeddus



Swyddog Cyswllt:  
Nicola Gittins on 01352 702345  
[nicola.gittins@flintshire.gov.uk](mailto:nicola.gittins@flintshire.gov.uk)

At: Bob Aelod o'r Cyngor

Dydd Mercher, 6 Rhagfyr 2017

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod Cyngor Sir y Fflint a fydd yn cael ei gynnal am 2.00 pm Dydd Mawrth, 12fed Rhagfyr, 2017 yn Siambraeth y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA i ystyried yr eitemau canlynol

## R H A G L E N

### 1 CYFLWYNIADAU

I gydnabod Timau Maethu a Adnoddau Dynol Corfforaethol y Cyngor wrth ennill Gwobr Cyflogwr Cyfeillgar Maethu y Flwyddyn yng Ngwobrau Rhagoriaeth Cenedlaethol Rhwydwaith Maethu.

### 2 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

**Pwrpas:** I derbyn unrhyw ymddiheuriadau.

### 3 COFNODION (Tudalennau 5 - 26)

Cadarnhau cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 24 Hydref a 14 Tachwedd 2017 fel cofnod cywir.

### 4 DATGAN CYSYLLTIAD

**Pwrpas:** I derbyn unrhyw ddatganiad o gysylltiad a chyngori'r Aelodau yn unol a hynny.

### 5 COFFA A THRIBLAU I AELOD HWYR Y CYNULLIAD CARL SARGEANT

### 6 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

**Pwrpas:** Derbyn unrhyw gyhoeddiad fel y'l dosbarthwyd.

**7 DEISEBAU**

**Pwrpas:** Derby'n unrhyw ddeiseb.

**8 CWESTIYNAU GAN Y CHYOEDD**

**Pwrpas:** Derby'n unrhyw gwestiwn gan y cyhoedd.

**9 CWESTIYNAU**

**Pwrpas:** Nodi'ratabion I unrhyw gwestiwn a gyflwynwyd yn unol a Rheol Sefydlog 9.4(A) y Cyngor Sir.

**10 RHYBUDD O GYNNIG (Tudalennau 27 - 28)**

**Pwrpas:** Ystyried unrhyw Hysbysiadau o Gynnig a dderbyniwyd.

**11 RHAGOLWG ARIANNOL A CHAM DAU Y GYLLIDEB 2018/19 (Tudalennau 29 - 42)**

Adroddiad Prif Weithredwr, Rheolwr Cyllid Corfforaethol

**Pwrpas:** Ystyried Dewisiadau Cyllideb Ail Gam ar gyfer Cyllideb 2018/19 Cronfa'r Cyngor ar argymhelliaid y Cabinet.

**12 PENODIAD AELOD ANNIBYNNOL (Tudalennau 43 - 48)**

Adroddiad Prif Swyddog (Llywodraethu)

**Pwrpas:** Penodiaelod annibynnol (cyfetholedig) i swydd wag ar y Pwyllgor Safonau.

**13 ARGYMHELLIAID GAN BWYLLGOR CRONFA BENSIYNAU CLWYD**  
(Tudalennau 49 - 52)

Adroddiad Prif Weithredwr

**Pwrpas:** Dyfarnu uwch gyflog ychwanegol ar gyfer swydd Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiwn Clwyd.

Yn ddiffuant,



Robert Robins  
Rheolwr Gwasanaethau Democraetaidd

## **HYSBYSIAD GWEDDARLLEDU**

Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffil mio a'l ddarlledu'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd y cyfarfod cyfan yn cael ei ffil mio oni bai fod eitemau cyfrinachol neu wedi'u heithrio dan drafodaeth.

Yn gyffredinol ni fydd y mannau eistedd cyhoeddus yn cael eu ffil mio. Fodd bynnag wrth i chi ddod i mewn i'r Siambr, byddwch yn cydsynio i gael eich ffil mio ac i'r defnydd posibl o'r delweddau a'r recordiadau sain hynny ar gyfer gweddarlledu a/neu ddibenion hyfforddi.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, ffoniwch aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democraidd ar 01352 702345.

Mae'r dudalen hon yn wag yn bwrpasol

# Eitem ar gyfer y Rhaglen 3

## **CYNGOR SIR Y FFLINT 24 HYDREF 2017**

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambraeth y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, dydd Mawrth, 24 Hydref 2017.

### **YN BRESENNOL: Cyngorydd Brian Lloyd (Cadeirydd)**

Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Helen Brown, Derek Butler, Clive Carver, Bob Connah, David Cox, Paul Cunningham, Jean Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, Veronica Gay, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Dave Hughes, Kevin Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Paul Johnson, Rita Johnson, Christine Jones, Tudor Jones, Richard Lloyd, Mike Lowe, Dave Mackie, Hilary McGuill, Billy Mullin, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Mike Reece, Ian Roberts, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Owen Thomas, Martin White, David Williams, David Wisinger, ac Arnold Woolley

### **YMDDIHEURIADAU:**

Y Cynghorwyr: Sian Braun, Geoff Collett, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, David Evans, Andrew Holgate, Richard Jones, Colin Legg, Andrew Holgate, Ted Palmer, a Tony Sharps

### **HEFYD YN BRESENNOL:**

Y Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Newid Sefydliadol 1), Prif Swyddog (Newid Sefydliadol 2), Y Prif Swyddog (Cymuned a Menter), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, a Ms Angela Bebbington i'r gweddiau.

## **44. COFNODION Y CYNGOR**

Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi 2017 wedi eu cylchredeg gyda'r agenda.

### **PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

## **45. DATGAN CYSYLTIAD**

Dyweddodd y Swyddog Monitro y byddai cysylltiad personol yn cael ei gofnodi ar ran yr holl Aelodau yn bresennol ar gyfer eitem 11 – Adroddiad Blynnyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2018/19.

## **46. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Roedd copi o Gyhoeddiadau'r Cadeirydd wedi eu rhoi i'r holl Aelodau cyn y cyfarfod.

Soniodd y Cadeirydd am y noson Gala Gwobrau Busnes Sir Y Fflint llwyddiannus a gynhaliwyd ar 20 Hydref, a diolchwyd i bawb a oedd ynghlwm am eu gwaith caled. Tynnodd sylw at y seremoni i ddathlu 25 mlynedd o weithgynhyrchu injan yng Nghymru a gynhaliwyd yn Toyota Manufacturing (UK) Limited, ar noson gyflwyno Cyfnewid leuenctid Japaneaidd a gynhaliwyd y noson flaenorol yn Neuadd y Sir. Dywedodd bod y ddau ddigwyddiad wedi bod yn ardderchog. Daeth y Cadeirydd i gasgliad drwy ddiolch i bawb a wnaeth gyfraniad at y digwyddiad Elusennol a drefnodd.

## **47. DEISEBAU**

Cyflwynodd y Cynghorwyr Dennis Hutchinson a Mike Peers ddeiseb ar ran preswylwyr lleol Mount Pleasant Road, Drury, Bwcle, i ddod yn system unffordd. Gwnaeth y Cynghorwyr Hutchinson a Peers sylw ar y pryderon a godwyd gan y preswylwyr yn yr ardal o ran diogelwch gyrwyr, beicwyr a cherddwyr, oherwydd y risg uchel o wrthdrawiad traffig a'r camau gweithredu a geisiwyd i fynd i'r afael â'r perygl.

## **48. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Ni dderbyniwyd dim.

## **49. CWESTIYNAU**

Ni dderbyniwyd dim.

## **50. RHYBUDD O GYNNIG**

Ni dderbyniwyd dim.

## **51. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLUOEDD ARFOG**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad a oedd yr Adroddiad Blynyddol cyntaf i Gyfamod Lluoedd Arfog Cyngor Sir y Fflint. Dywedodd bod yr adroddiad yn amlinellu cynnydd ac ymrwymiad yr Awdurdod a'i bartneriaid sydd wedi llofnodi'r Cyfamod i gefnogi'r Gymuned Lluoedd Arfog. Eglurodd bod y Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru hefyd wedi ymuno â Chyfamod Sir y Fflint, ac wedi llofnodi'r Cyfamod yn ffurfiol mewn seremoni fer cyn y cyfarfod o'r Cyngor heddiw. Gofynnodd y Prif Weithredwr i Aelodau ystyried i ardystio cynnydd positif a wnaed i gwrdd â'r Cyfamod Lluoedd Arfog a chefnogi'r ymrwymiadau am welliannau pellach a chymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol cyn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Gwahoddodd y Prif Weithredwr y Cyngorydd Andrew Dunbobbin i siarad ar eitem fel Cefnogwr y Lluoedd Arfog y Cyngor.

Wrth drafod yr adroddiad, cyfeiriodd y Cyngħorydd Dunbobbin ar y sylwadau cadarnhaol a wnaethpwyd gan Llywodraeth Cymru ynghylch y gwaith a gyflawnwyd yn Sir y Fflint ac yn bennaf gwaith ysgolion i gasglu data os yw unrhyw ddisgyblion neu fyfyrwyr yn blant aelodau sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, a'r cynnig o gyfweliadau sicr ar i gyn-filwyr sydd yn bodloni meini prawf hanfodol o rôl y swydd.

Llongyfarchodd y Cyngħorydd Clive Carver yr Awdurdod ar gynhyrchu Cyfamod Lluoedd Arfog, fodd bynnag, gan gyfeirio at feisydd i wella a nodir ym mharagraff 1.05 o'r adroddiad, teimlodd bod hepgor yr amcan "ysgolion i ddechrau casglu a yw unrhyw ddisgyblion/ myfyrwyr yn blant i aelodau sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog" ac awgrymodd y dylid newid geiriau'r Cyfamod Sir Y Fflint i gynnwys "plant aelodau sy'n wasanaethau a chyn-filwyr o'r Lluoedd Arfog". Cydnabu'r Prif Weithredwr y pwynt a wnaeth y Cyngħorydd Carver, a rhoddodd sicrwydd bod y gwaith yn berthnasol i aelodau sy'n gwasanaethu ac sydd yn gyn-filwyr, a chytunwyd i newid y geiriau i ddarparu cadarnhad.

Cyfeiriodd y Cyngħorydd Tudor Jones at hyrwyddo menter nofio am ddim Llywodraeth Cymru i gyn-filwyr a phersonél lluoedd arfog a oedd ar gael mewn pedwar pwll nofio yn y Sir, a gofynnwyd a ellir gwneud y cyfleuster hwn ar gael i byllau nofio yn y Sir. Hefyd dywedodd y Cyngħorydd Jones ar y gwaith a gyflawnwyd i adfer cofeb ryfel yn Ysceifiog, a gofynnodd i'r Cyngħorydd Dunbobbin os allai ddarparu gwybodaeth ar unrhyw gyllid y gallai'r gymuned leol wneud cais amdano i helpu gyda'r prosiect.

Dywedodd y Cyngħorydd Dunbobbin bod cyllid ar gael gan Llywodraeth Cymru tan 2018 ar gyfer y fenter nofio am ddim ac yn berthnasol i holl wasanaethau hamdden. Dywedodd y byddai'n annog sefydliadau i wneud cais am gyllid a oedd yn cael ei ddal yn ganolog gan Llywodraeth Cymru. Gan gyfeirio at y prosiect cymunedol i adfer cofeb ryfel, dywedodd y Cyngħorydd Dunbobbin y gallai'r cymunedau lleol wneud cais am gyllid drwy'r Cyfamod Cymunedol Lluoedd Arfog. Egluodd y Prif Swyddog (Newid Sefydliadol 1) sut oedd y cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y fenter nofio am ddim i gyn-filwyr a phersonél y lluoedd arfog yn cael ei ledaenu ar draws pyllau nofio yn Sir y Fflint, a dywedodd bod y trefniadau cyfredol am gael eu hadolygu yn ystod y misoedd nesaf. Dywedodd hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn adolygu'r cyllid a darpariaeth ar gyfer nofio am ddim yn ystod y 12 mis nesaf i sicrhau bod y pobl sydd ei angen fwyaf yn cael mantais.

Gofynnodd y Cyngħorydd Arnold Woolley i'r gair "to" gael ei gynnwys yn yr ail argymhelliaid ar dudalen 6 yr adroddiad ar ôl y gair "prior". Mewn ymateb i'r cwestiwn gan y Cyngħorydd Woolley ynghylch a oedd y Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi llofnodi Cyfamod Sir y Fflint, cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod personél o'r Lluoedd Arfog wedi mynchy u llofnodi'n ffurfiol y cyfamod ar ran y Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru mewn seremoni fer cyn cyfarfod o'r Cyngor heddiw.

Dywedodd y Cyngħorydd Paul Cunningham bod cefnogaeth gyhoeddus gryf ar gyfer y Lluoedd Arfog a llongyfarchodd yr Awdurdod am y gwaith a gyflawnwyd i gefnogi Cyfamod y Lluoedd Arfog.

Gofynnodd y Cyngħorydd Hillary McGuill os yw cyn-filwyr a phersonél lluoedd arfog yn cael mynediad "heb gyfyngiad" yn lle "cyfyngiad o ran amser" i weithgareddau

nofio a digwyddiadau. Cydnabu'r Cyngorydd Dunbobbin yr awgrym a dywedodd bod nifer o gynlluniau ar gael gan y Lluoedd Arfog i gynorthwyo cyn-filwyr a phersonél y Lluoedd Arfog.

Croesawodd y Cyngorydd Chris Bitell y menter i ysgolion i ddechrau casglu data os ydy unrhyw ddisgyblion neu fyfyrwyr yn blant i gyn-filwyr ac aelodau sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog. Soniodd am ei edmygedd am lwyddiannau gan y disgyblion a myfyrwyr sydd wedi gorfol addasu i gyfnodau aml o ail-leoli drwy eu haddysg.

#### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y cynnydd cadarnhaol a wnaed mewn cyfarfod, bod y Cyfamod Lluoedd Arfog a chefnogi ymrwymiadau ar gyfer gwelliannau pellach gael eu gosod; a
- (b) Bod Adroddiad Blynnyddol Cyfamod Lluoedd Arfog yn cael ei gymeradwyo

#### **52. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2016/17**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad i ardystio Adroddiad Gwella Blynnyddol 2016/17 ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2016 tan 31 Mawrth 2017 cyn ei gyhoeddi. Dywedodd bod yr Adroddiad Perfformiad Blynnyddol yn adroddiad statudol a oedd yn darparu trosolwg o berfformiad yr Awdurdod i gyflawni blaenoriaethau gwella fel yr amlinellir yn y Cynllun Gwella 2016/17. Rhoddodd y Prif Weithredwr wybodaeth gefndir a chyd-destun a dywedodd bod yr Adroddiad wedi'i fabwysiadu gan y Cyngor cyn 31 Hydref 2017.

Rhoddodd y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cyfathrebu a Busnes Corfforaethol gyflwyniad ar y cyd a oedd yn trafod y meysydd canlynol:

- Adroddiad Perfformiad Blynnyddol
- Cynllun y Cyngor 2017-2023
- fformat a chynnwys
- trosolwg perfformiad 2016/17
- trosolwg cynnydd
- uchafbwyntiau
- meysydd i'w gwella
- trosolwg perfformiad
- Swyddfa Archwilio Cymru – golwg 2016/17
- trosolwg
- camau nesaf
- Cynllun y Cyngor

Symudodd y Cyngorydd Aaron Shotton yr argymhelliaid i fabwysiadu'r Adroddiad Perfformiad Blynnyddol a mynegodd ei ddiolch i'r Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cyfathrebu a Busnes Corfforaethol am y cyflwyniad manwl a llawn gwybodaeth. Siaradodd am y cyfreithiol i ddathlu lwyddiannau'r Awdurdod ac ymyriadau a oedd wedi gwneud gwahaniaeth "gwrioneddol" i breswylwyr a chymunedau lleol yn

Sir y Fflint. Fodd bynnag, cydnabod bod hefyd feysydd lle gellir gwneud gwaith pellach i gyflawni'r canlyniadau a nodir yng Nghynllun y Cyngor.

Rhoi sylw ar lwyddiannau'r Awdurdod, tynnodd y Cynghorydd Shotton sylw at y cynnydd a gwelliannau fel y nodir yn yr adroddiad a chyflwyniad ynghylch tai, gofal cymdeithasol, sgiliau a dysgu. Hefyd siarad am waith a llwyddiant yr Awdurdod o ran datblygu'r sector menter gymdeithasol a chyfeiriodd at y digwyddiad Gwobrau Busnes Sir y Fflint diweddar a nifer o fusnesau cyfrifol cymdeithasol a oedd yn cael eu cefnogi gan yr Awdurdod, ac enwau a roddwyd ymlaen ar gyfer gwobrau yn y digwyddiad hwn. Dywedodd y Cynghorydd Shotton ei fod yn falch o weld bod Café Isa, Mynydd Isa, a oedd yn haeddiannol wedi ennill gwobr ar y noson.

Dyweddodd y Cynghorydd Shotton am gyflawniad bod Sir y Fflint wedi ei dod i'r brig allan o 22 Awdurdod ar draws Cymru fel yr Awdurdod sydd wedi gwella orau rhwng 2015/16 a 2016/17, a dywedodd ei fod yn bwysig bod cyfraniad a gwaith caled gweithlu'r Awdurdod i wneud y cyflawniad yn bosibl yn cael ei gydnabod.

Mynegodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson ei werthfawrogiad ar gyfer cyfleusterau gwell Ailgylchu Aelwyd ym Mwcle a'r Wyddgrug. Cyfeiriodd at y nifer o dai cyngor newydd yn cael eu hadeiladu yn Sir y Fflint a dywedodd bod diffyg cyflenwad mewn rhai ardaloedd, defnyddiwyd Bwcle fel engrhraifft. Anogodd yr Awdurdod i fynd i'r afael â'r sefyllfa i sicrhau bod digon o ddarpariaeth o dai cyngor yn y Sir, ac ailadroddodd ei bryderon ynghylch yr angen am fwy o dai cyngor newydd ym Mwcle. Mynegodd y Cynghorydd Hutchinson ei werthfawrogiad i'r Cynghorydd Attridge ac i'r Prif Swyddog (Newid Sefydliadol 1) am eu gwaith a chefnogaeth i fynd i'r afael â'r mater o wersyloedd anghyfreithlon ar Gomin Bwcle.

Ymatebodd y Cynghorydd Bernie Attridge i'r pryerdon a fynegwyd gan y Cynghorydd Hutchinson ynghylch y galw a'r cyflenwad o dai cyngor newydd yn Sir y Fflint, a rhoddodd fanylion ar y safleoedd adeiladu newydd a chynlluniau sy'n cael eu hadeiladu neu sy'n cael eu cynnig yn y Sir. Rhoddodd sicrwydd i'r Cynghorydd Hutchinson bod yr Awdurdod yn gweithio i fynd i'r afael â'r angen am dai fforddiadwy, ac yn gadarn yn ei chwiliad a'i drafodaethau am dir addas ac sydd ar gael i gynlluniau tebyg. Dywedodd ei fod yn optimistaidd y bydd cyhoeddiad yn cael ei wneud yn y misoedd nesaf ar gynllun newydd yn ardal yr Wyddgrug.

Cydnabu'r Cynghorydd Mike Peers y cynnydd cyffredinol a wnaethpwyd yn erbyn y blaenoriaethau gwella a dywedodd yr oedd angen dathlu hyn. Fodd bynnag, roedd yn teimlo ei fod yn bwysig i gadw'r ffocws ar y mesuryddion perfformiad a oedd heb fodloni'r targed i sicrhau bod gwelliannau yn symud ymlaen. Gofynnodd i gynnwys crynodeb o fesuryddion perfformiad nad oedd wedi bodloni'r targed yn adroddiadau'r dyfodol i alluogi'r Aelodau gymharu'r perfformiad.

Mynegodd y Cynghorydd Peers bryderon ynghylch yr angen a galw am dai fforddiadwy, a theimlodd o ran ceisiadau cynllunio a gyflwynwyd gan ddatblygwyr preifat, bod angen dwysedd digonol ar y safle i ysgogi'r cyfraniad tai fforddiadwy. Awgrymodd bod angen i adolygu'r polisi ac i'r Tîm Strategaeth Tai i ymgysylltu'n fwy gyda'r Adran Gynllunio i gyflawni'r canlyniadau sydd yn ofynnol am dai fforddiadwy. Mewn ymateb, rhoddodd y Prif Swyddog (Cymuned a Menter) sicrwydd bod cydweithrediad agos rhwng y Tîm Strategaeth Tai a'r Adran Gynllunio. Eglurodd bod

tystiolaeth dda o alw am dai fforddiadwy a bod y gwasanaeth yn gweithio'n galed i sicrhau bod cymysgedd priodol o unedau tai ar y datblygiad.

Dyweddodd y Cynghorydd David Healey bod perfformiad chwartel Sir y Fflint, fel yr amlinellwyd ar dudalen 63 o'r adroddiad yn gyflawniad da yn dilyn y llymder a chaledi ariannol sydd wedi digwydd yn y blynnyddoedd diweddar a llonyfarchodd y swyddogion a staff am eu gwaith caled. Dywedodd y Cynghorydd Healey ei fod yn falch yn arbennig gyda'r cynnydd a wnaed i helpu preswylwyr mwyaf diamddiffyn yn Sir y Fflint o ran tai, digartrefedd, diwygiad lles, a thlodi, a canmolodd yr Awdurdod ar y gwaith yr oedd wedi'i gyflawni. Hefyd soniodd am ei werthfawrogiad a'r angen i ganmol aelodau o'r cymunedau lleol sydd wedi bod yn wirfoddolwyr am eu cefnogaeth a chynnal gwasanaethau mewn risg mewn ardaloedd lleol, a dywedodd bod y cynllun trosglwyddo ased cymunedol llwyddiannus yn Llyfrgell yr Hôb yn enghraifft.

Dyweddodd y Cynghorydd Hilary McGuill bod yr amser gostyngol i gwblhau'r Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn cael eu croesawu. Fodd bynnag, mynegodd bryderon yngylch yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw ac atgyweirio ysgol heb eu gwneud, a dywedodd ei fod yn wastraff i oedi gwaith o'r fath. Cydnabu'r Prif Weithredwr y pwytiau a wnaethpwyd a dywedodd bod y mater o ystadau ysgol yn broblem cenedlaethol ac oherwydd argaeedd cyfalaf a buddsoddiad annigonol. Dywedodd y bydd y tan-gyllido ar gyfer atgyweiriadau yn aros yn risg oren hyd y gellir ei ragweld.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Arnold Woolley yngylch derbyniad preswylwyr am gymorth ariannol sydd ar gael i atgyweirio tai, dywedodd y Prif Swyddog (Cymuned a Menter) nad oedd problem o ran derbyn benthyciadau grantiau cymdeithasol.

Ymatebodd y Prif Weithredwr a'r Cynghorydd Derek Butler i'r bryder a godwyd gan y Cynghorydd Woolley yngylch Pwerdy'r Gogledd a Phartneriaeth Menter Lleol (LEP), y seilwaith, a Chynghrair Mersi a'r Dyfrdwy. Egluodd y Prif Weithredwr y bydd cyflwyniad yn cael ei wneud yn fuan i ddarparu amlinelliad o'r cynnig Bargen Twf Economaidd Gogledd Cymru a fyddai'n egluro'r berthynas gyda'r Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy, dylanwad Sir y Fflint a chydweithrediad trawsffiniol. Rhoddodd y Cynghorydd Derek Butler ddiweddarriad ar y datblygiad diweddar ar y Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy a soniodd am y gweithio trawsffiniol a trawsbleidiol a oedd wedi digwydd, a rhoddodd sicrwydd bod gwaith sylweddol yn datblygu a byddai'r Bargen Twf yn cael ei adeiladu arno.

Soniodd y Cynghorydd Neville Phillips am yr angen am dai fforddiadwy ychwanegol ym Mwcle, a hefyd y galw am ddarpariaeth gofal ychwanegol i'w hadeiladu yn yr ardal, ac awgrymodd bod y safle yn Princess Avenue ym Mwcle yn cael ei ystyried fel tir adeiladu ar gyfer cynlluniau tebyg yn y dyfodol. Cydnabu'r Prif Weithredwr y pwytiau a wnaethpwyd gan y Cynghorydd Phillips a dywedodd ei fod yn cael ei gydnabod y byddai Bwcle yn cael y flaenoriaeth nesaf ar gyfer unrhyw gynllun yn y dyfodol, egluodd nad oedd cynllun adnoddau ar gael ar hyn o bryd i ymestyn y ddarpariaeth ofal ychwanegol.

Siaradodd y Cynghorydd Carol Ellis am gyfraniad gwerthfawr gan Aelodau a swyddogion sydd wedi gweithio ar y cyd drwy'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal, lechyd a Chymdeithasol i gyflawni gwelliannau. Hefyd soniodd am werth gallu a'r

gwahaniaeth sylweddol y gwnaeth ar alw ar wasanaethau gofal iechyd a chymdeithasol, a mynegodd ei gwerthfawrogiad am y gwaith yr Uwch-Reolwr Gwasanaethau Integredig Oedolion Arweiniol a'i thîm.

Soniodd y Cyngorydd Ian Roberts am y gwelliannau mewn sgiliau a dysgu a'r angen i longyfarch staff mewn ysgolion ar y cynnydd rhagorol a gyflawnwyd a nodwyd y gwelliannau yn y dangosyddion perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen, a Chyfnodau Allweddol 2,3 a 4 er enghraifft. Hefyd soniodd am y gwaith a chyflawniadau o ddisgyblion sydd wedi gweithio'n galed ac wedi cyflawni cynnydd personol sylweddol ond heb gael ei adlewyrchu yn y dangosyddion. I ddod i gasgliad cytunodd y Cyngorydd Roberts gyda'r pryderon a wnaethpwyd gan y Cyngorydd McGuill ynghylch ôl-groniad o waith atgyweirio a chynnal chadw mewn ysgolion a'r angen am fuddsoddiad cyfalaf.

#### **PENDERFYNWYD:**

Bod yr Adroddiad Perfformiad Blynnyddol 2016/17 yn cael ei fabwysiadu.

#### **53. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT 2018/19 PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i alluogi'r Cyngor i ystyried a rhoi sylw ar Adroddiad Blynnyddol Drafft 2018/19 y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Rhoddodd wybodaeth gefndirol ac eglurodd mai'r Panel sydd yn nodi a phenderfynu beth ddylai'r cyfraddau talu fod i Aelodau ac aelodau cyfetholedig Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

Dyweddodd y Swyddog Monitro bod gofyn i'r Panel ystyried y sylwadau a gafwyd ar y drafft cyn cyhoeddi fersiwn terfynol o'r adroddiad ym mis Chwefror 2018. Dywedodd bod penderfyniadau'r Panel ar gyfer 2018 wedi'u hychwanegu i'r adroddiad. Dywedodd y Swyddog Monitro nad oedd y Panel yn argymhell unrhyw gynyddiadau ar unrhyw lwfansau ar gyfer 2018/19, ar wahân i'r newid o gyflog sylfaenol ar gyfer aelodau etholedig a oedd yn golygu cynnydd o £200 (1.49%).

Hefyd, dywedodd y Swyddog Monitro nad oedd cynnydd wedi'i gynnig ar gyfer cyflogau uwch, ond byddai'r deiliaid swydd yn cael cynnydd o £200 yn y cyflog sylfaen sy'n cael ei dalu i holl Aelodau. Roedd y Panel wedi cael gwared ar y dull "dwy haen" i dalu Aelodau Cabinet a Chadeiryddion Pwyllgor, gan nad oedd yr un awdurdodau lleol wedi mabwysiadu'r dull.

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at y nifer o swyddi cyflog uwch yr oedd Sir y Fflint yn gallu ei dalu. Rhoddodd wybodaeth gefndirol ac eglurodd y gofynnwyd i'r Cyngor ystyried a ddylid gwneud cais i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth ar gyfer cyflog penodol neu gyflog uwch ychwanegol, sydd ddim yn disgyn o fewn y fframwaith cydnabyddiaeth gyfredol, i gydnabod rôl y Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiwn sydd yn ddi-dâl ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y cais i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth ar gyfer cyflog uwch ychwanegol penodol, sydd ddim yn disgyn o fewn y fframwaith cydnabyddiaeth cyfredol, i gydnabod y rôl di-dâl cyfredol Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiwn Clwyd, i'w ardystio; a
- (b) Bod y Prif Swyddog (Llywodraethu) yn cael ei awdurdodi i wneud ymateb ar ran y Cyngor, adlewyrchu'r penderfyniad a wnaethpwyd yn y cyfarfod, i'r Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

**54. AILBENODI CYNRYCHIOLWYR CYNGOR TREF A CHYMUNED I'R PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad ar ailbenodi cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned am dymor ychwanegol ar y Pwyllgor Safonau.

Darparodd y Swyddog Monitro gwybodaeth gefndirol a dywedodd bod y cyfnod mewn swydd ar gyfer Cynrychiolydd Tref a Chymuned wedi dod i ben yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2017. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Blynnyddol o'r Cyngor ym mis Mai 2017, a'r Pwyllgor Safonau ym mis Gorffennaf 2017 yn argymhell bod y Cyngorydd Duggan-Keen, y cynrychiolydd cyfredol, yn cael ei ailbenodi am dymor arall. Cyn ail-benodi, bydd y Cyngor angen ymgynghori â'r Cynghorau Tref a Chymuned ar y cynnig. Dywedodd y Swyddog Monitro bod ymgynghoriad wedi'i gyflawni a gan nad oedd neb yn anghytuno gyda'r cynnig, y byddai'n parhau.

**PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y Cyngor yn nodi nad yw'r un Cyngor Tref a Chymuned wedi gwirthwynebu i ailbenodi'r Cyngorydd Duggan-Keen; a
- (b) Bod y Cyngorydd Duggan-Keen yn cael ei ail-benodi am weddill tymor y cyngor.

**55. ER GWYBODAETH – PENODI I GYRFF ALLANOL**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaidd i roi gwybod i'r Cyngor am y cynnydd o ran penodi aelodau i Gyrrf Allanol cenedlaethol a rhanbarthol. Dywedodd bod y rhestr Penodiadau i'r Cyrff Allanol wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Blynnyddol ym mis Mai 2017, ac yn dilyn y Cyfarfod Blynnyddol, bu i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad gydag Arweinyddion Grŵp, benodi bob un ar wahân i un corff ar y rhestr sydd wedi'i atodi i'r adroddiad. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaidd bod un lle gwag lle nad oedd wedi bod modd gwneud enwebiad, oedd Cymdeithas Pob Fyddar Gogledd Cymru ac felly roedd yn parhau yn le gwag ar hyn o bryd. Eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaidd bod rhai llefydd gwag cyfredol ar y rhestr yn berthnasol i'r diweddar Gynghorydd Ron Hampson ac roedd y rhain yn berthnasol i'r Ward a byddant yn cael eu llenwi yn dilyn isetholiad Gorllewin Bwcle Bistre.

Cyfeiriodd y Cyngorydd Mike Peers i'r lle gwag ar Bwrdd Llywodraethwyr Theatr Clwyd a gofynnodd am gadarnhad bod y lle gwag yn bodoli. Cynigiodd os nad yw'r lle gwag yn bodoli, yna byddai'r Cyngorydd Kevin Hughes yn cymryd lle'r Cyngorydd Veronica Gay. Mewn ymateb, eglurodd y Prif Weithredwr bod y Bwrdd Llywodraethwyr yn cael ei adolygu yn fewnol gan y Theatr a gan y Cabinet, a gwnaeth sylwadau ar rai o'r cynigion yngylch aelodaeth y Bwrdd, a dywedodd bod swyddi allanol yn cael eu hysbysebu fel ffordd o benodiad cyhoeddus i agor hygyrchedd i fod yn Aelod o'r Bwrdd Theatr. Dywedodd y Prif Weithredwr, ar hyn o bryd fydd aelodaeth gyfredol y Bwrdd Llywodraethwyr, yn fewnol ac allanol, yn parhau'r un fath. Fodd

bynag, i gydnabod y cynnig gan y Cyngropydd Peers, dywedodd nad oedd yn newid y nifer neu gyfran o gynrychioliadau.

Cyfeiriodd y Cyngropydd Chris Bithell at y ddwy le gwag ar y rhestr ar gyfer SACRE, a dywedodd bod y Cyngropydd Paul Cunningham wedi gwirfoddoli i ymuno â'r aelodaeth y Pwyllgor, felly dim ond un lle gwag sydd ar y corff hwn.

**PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y rhestr gyfredol o'r Cyrff Allanol sydd wedi'i atodi fel Atodiad A, yn cael ei nodi; a
- (b) Pan fydd llefudd gwag dal heb eu llenwi, y dylid tynnu'r rhain o'r rhestr Cyrff Allanol.

**56. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL**

Roedd un aelod o'r wasg a dim aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 3.35pm)

.....  
**Cadeirydd**

**CYNGOR SIR Y FFLINT**  
**14 TACHWEDD 2017**

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Flint a gynhaliwyd yn Siambraeth y Cyngor, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, ddydd Mawrth, 14 Tachwedd 2017.

**YN BRESENNOL: Y Cyngorydd Brian Lloyd (Cadeirydd)**

Y Cyngorwyr: Bernie Attridge, Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Sian Braun, Derek Butler, Clive Carver, Bob Connah, David Cox, Paul Cunningham, Jean Davies, Rob Davies, Ron Davies, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Andrew Holgate, Dave Hughes, Kevin Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Paul Johnson, Rita Johnson, Christine Jones, Colin Legg, Mike Lowe, Dave Mackie, Hilary McGuill, Billy Mullin, Ted Palmer, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Mike Reece, Ian Roberts, Tony Sharps, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ian Smith, Carolyn Thomas, Andy Williams, David Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley

**YMDDIHEURIADAU:**

Y Cyngorwyr: Mike Allport, Helen Brown, Geoff Collett, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Richard Jones, Tudor Jones, Richard Lloyd, Ralph Small, Owen Thomas a Martin White

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Y Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Llywodraethu); Rheolwr Cyllid Corfforaethol; Prif Swyddog (Cymuned a Menter); Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd); Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant); Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol); Prif Swyddog (Newid Sefydliadol); Prif Swyddog Dros Dro (Addysg ac Ieuenctid); Rheolwr Cyllid; Rheolwr Gwasanaethau Democratiaidd; Swyddogion y Gwasanaethau Democratiaidd; a'r Parch. Maureen Roberts ar gyfer gweddïau

Ar ôl y gweddïau, gofynnodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol ymuno ag o mewn munud o dawelwch er cof am y diweddar Carl Sergeant AC.

Croesawyd yr Aelod newydd-etholedig dros Fwcle Gorllewin Bistre, y Cyngorydd Andy Williams, i'w gyfarfod Cyngor Sir cyntaf.

**57. DATGAN CYSYLTIAD**

Ar Eitem 7 ar y Rhaglen, Cam 1 Cyllideb Cronfa'r Cyngor 2018/19, datganodd y Cyngorydd McGuill gysylltiad personol ar ôl ei sylwadau ar ardethi busnes ar gyfer elusennau, oherwydd bod aelodau o'i theulu yn sefydliad y Sgowitziaid.

**58. DEISEBAU**

Ni dderbyniwyd dim.

## **59. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Ni dderbyniwyd dim.

## **60. CWESTIYNAU**

Ni dderbyniwyd dim.

## **61. RHYBUDD O GYNNIG**

Derbyniwyd dau Rybudd o Gynnig gan y Cyngorydd Aaron Shotton:

- (i) Gwneud trefniadau trosiannol teg ar gyfer Pensiwn y Wladwriaeth i ferched a aned yn y 1950au.

‘Gorfodwyd newidiadau sylweddol i’w pensiynau ar gannoedd o filoedd o ferched gan Ddeddf Pensiynau 1995 a 2011 heb fawr neu ddim rhybudd personol ynglŷn â'r newidiadau. Cafodd rhai merched lai na dwy flynedd o rybudd am gynnydd o chwe blynedd i oed Pensiwn y Wladwriaeth. Mae rhai merched heb gael eu rhybuddio o gwbl.

Mae nifer o ferched a aned yn y 1950au yn byw mewn caledi. Mae cynlluniau ymddeol wedi’u chwalu, gyda goblygiadau dinistriol. Mae nifer o'r merched hyn eisoes allan o'r farchnad lafur, yn gofalu am berthnasau hŷn, yn gofalu am wyrion ac wyresau, neu'n dioddef o wahaniaethu yn y gweithle ac felly'n ei chael yn anodd dod o hyd i waith.

Mae merched a aned yn y degawd hwn yn dioddef yn ariannol. Maent wedi gweithio'n galed, wedi magu teuluoedd a thalu eu trethi a'u hyswiriant gwladol gan ddisgwyl y byddant yn ddiogel yn ariannol ar ôl cyrraedd 60 oed. Nid yr oedran pensiwn ei hun yw pwnc y ddadl, ond bod y cynnydd yn oedran Pensiwn y Wladwriaeth i'r merched wedi bod yn rhy sydyn ac wedi digwydd heb fawr o rybudd i'r rhai sy'n cael eu heffeithio, gan eu gadael heb ddigon o amser i wneud trefniadau eraill.

Penderfyniad:

Bod y Cyngor hwn yn cydnabod ac yn cefnogi Grŵp WASPI (Merched yn Erbyn Anghydraddoldeb Pensiwn y Wladwriaeth) Sir y Fflint ac ein bod ni, fel Cyngor, yn penderfynu gweithredu i alw ar y Llywodraeth i wneud trefniadau trosiannol teg o ran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer yr holl ferched a aned yn y 1950au sy'n cael eu heffeithio gan newidiadau i oed Pensiwn y Wladwriaeth ac sydd wedi ysgwyddo baich y cynnydd i'r oedran hwnnw yn annheg, heb ddigon o rybudd.'

Wrth gefnogi'r Cynnig hwn, gobeithiai'r Cyngorydd Shotton y byddai pawb yn cydnabod annhegwrch y mater hwn a rhoddodd enghreifftiau o'r gofid personol a achoswyd i unigolion lleol. Galwodd ar y Cyngor i gefnogi ymgyrch genedlaethol WASPI, a oedd yn cynnwys grŵp gweithredu lleol, ac roedd rhai o'i aelodau'n bresennol.

Wrth eilio'r Cynnig, rhoddodd y Cyngorydd Kevin Hughes wybodaeth gefndir am ymgrych WASPI. Pwysleisiodd mai ffocws yr ymgrych oedd y cynnydd sydyn yn oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ferched, lle'r oedd newidiadau a orfodwyd yn ddifyrwyd wedi gadael nifer mewn caledi a heb allu cynllunio i ymddeol.

Hefyd yn siarad o blaid y Cynnig oedd y Cyngorwyr Mike Peers, Rita Johnson a Paul Shotton.

Pleidleisiwyd yn unfrydol o blaid y Cynnig.

(ii) Diwedd ar Galedi Ariannol Llywodraeth y DU

‘Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Ganghellor y Trysorlys i roi diwedd ar bolisi Llywodraeth y DU o galedi ariannol yn ei gyllideb, sydd i gael ei chyflwyno ger bron y Senedd ar 22 Tachwedd. Mae'r Cyngor hwn yn credu bod caledi ariannol, ar ôl saith mlynedd ohono fel strategaeth wleidyddol ac economaidd, wedi'i wrthbrofi'n llwyr a'i fod wedi gwneud niwed aruthrol i'n gwasanaethau cyhoeddus a'n cymunedau ar draws Sir y Fflint a'r DU.

Mae'r Cyngor yn credu na all y sector cyhoeddus yn Sir y Fflint nac ar draws y DU bellach oddef y gostyngiadau sylweddol i gyllid flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi gostwng 7% mewn termau real ers 2010, sydd gyfwerth â swm anhygoel o £1.2 biliwn.

Mae'n bryd i Lywodraeth y DU gydnabod gwerth gwasanaethau cyhoeddus drwy ddarparu'r lefelau cyllid y mae eu hangen i ateb y galw cynyddol am wasanaethau.

Mae'r Cyngor hwn yn cytuno i:

- Barhau i ymgyrchu dros yr wythnosau nesaf i gyfleo'r angen am ddiwedd ar galedi ariannol.
- Parhau i fod yn agored am faint yr heriau ariannol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu yn y tymor byr a chanolig os nad yw'r caledi ariannol yn dod i ben, a'r niwed y gallai hyn ei wneud i'n cymunedau a'n gwasanaethau lleol.
- Gofyn bod Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu at Ganghellor y Trysorlys ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ofyn am ddiwedd ar galedi ariannol ac i gyllid teg gael ei roi i Gymru, yn enwedig i alluogi'r Cyngor i ddiwallu'r angen a'r pwysau cynyddol o ran Addysg a Gofal Cymdeithasol.'

Dyweddodd y Cyngorydd Shotton bod digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd a oedd yn cael eu cynnal ar draws y sir i bwysleisio effaith toriadau i gyllid yn ennyn llawer o gefnogaeth i newidiadau gael eu gwneud ar lefel Llywodraeth y DU.

Eiliwyd y Cynnig gan y Cyngorydd Bernie Attridge.

Gwnaeth y Cyngorydd Peers sylwadau ar ymagwedd y Cyngor yn y gorffennol. Dywedodd, gan fod Cyngor Sir y Fflint yn cael ei gydnabod fel cyngor cyllid isel yng Nghymru, y dylid crybwyl Llywodraeth Cymru a'i chyfrifoldebau o ran y sefyllfa ariannol bresennol.

Cefnogodd y Cyngorydd Heesom y Cynnig ond fe gododd nifer o bryderon ynglŷn ag effaith darparu gwasanaethau drwy gyflenwyr allanol, darparu gwasanaethau teg a chraffu rhagarweiniol ar faterion gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, gan obeithio y byddai hyn yn cael ei drafod yn rhan o gam nesaf y broses o bennu'r gyllideb.

Fel Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad, cyfeiriodd y Cyngorydd Thomas at yr arbedion sylweddol a wnaed o fewn ei phortffolio ac fe ganmolodd y timau a oedd ynglwm â chynnal gwasanaethau rheng flaen. Wrth gefnogi'r Cynnig a diwedd ar galedi ariannol yn gryf, mynegodd bryderon ynglŷn â'r effaith ar y gweithlu a thrigolion a'r diffyg cefnogaeth ariannol i ddarparu gwasanaethau hanfodol i fodloni rhwymedigaethau statudol.

Hefyd yn cefnogi, dywedodd y Cyngorydd Bithell bod Llywodraeth y DU mewn lle i ddarparu cyllid i Lywodraeth Cymru y mae ei angen i fuddsoddi a chynnal gwasanaethau hanfodol.

Nid oedd y Cyngorydd Woolley yn gallu cefnogi'r Cynnig ac fe wnaeth sylwadau ar effeithiau cydnabyddedig caledi ariannol ar yr economi ac effaith benthyciadau a gwariant blaenorol. Teimlai na ellid datrys y sefyllfa ariannol heb atebion cadarnhaol eraill, ac nid oedd tystiolaeth o hynny.

Gwnaeth y Cyngorydd Carver sylwadau ar Lywodraeth Cymru'n brigdori cyllid i ariannu prosiectau diangen. Cynigiodd addasiad i drydydd pwynt bwled y Cynnig fel a ganlyn: "Gofyn bod Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu at Ganghellor y Trysorlys ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ofyn am roi diwedd ar galedi ariannol ac i Brif Weinidog Cymru i gyllid gael ei rannu'n deg yng Nghymru."

Eiliwyd hyn gan y Cyngorydd Axworthy.

Gofynnodd y Cyngorydd Attridge am gofnodi'r bleidlais ar y Cynnig sylweddol ac fe gefnogodd y nifer ofynnol o Aelodau hynny.

O'i roi i'r bleidlais, gwrthodwyd yr addasiad gan y Cyngorydd Carver.

Yn ei hawl i ymateb, dywedodd y Cyngorydd Shotton bod y Cyngor wedi cyrraedd "pwynt tyngedfennol" ym mhroses y gyllideb. Er bod cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru'n rhan o'r eitem nesaf ar y rhaglen, roedd y Cynnig yn ymwneud â chydnabod a chefnogi'r galw am newid polisi cyllidol y DU.

Pleidleisiwyd o blaids y Rhybudd o Gynnig fel a ganlyn:

**O blaids y Cynnig:**

Y Cyngorwyr: Brian Lloyd, Paul Cunningham, Bernie Attridge, Glyn Banks, Haydn Bateman, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Derek Butler, David Cox, Jean Davies, Ron Davies, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, David Evans, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Dave Hughes, Kevin Hughes, Ray Hughes, Joe Johnson, Paul Johnson, Rita Johnson, Christine Jones, Colin Legg, Mike Lowe, Hilary McGuill, Billy Mullin, Ted Palmer, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Mike Reece, Ian Roberts, Tony Sharps, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ian Smith, Carolyn Thomas, Andy Williams, David Williams a David Wisinger

**Yn erbyn y Cynnig:**

Y Cyngorwyr: Janet Axworthy, Sian Braun, Clive Carver, Bob Connah, Rob Davies, Veronica Gay, Andrew Holgate, Dennis Hutchinson, Dave Mackie, Mike Peers ac Arnold Woolley

**PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y Rhybudd o Gynnig gan y Cyngor hwn yn cael ei gefnogi fel a ganlyn: ‘Bod y Cyngor hwn yn cydnabod ac yn cefnogi Grŵp WASPI (Merched yn Erbyn Anghydraddoldeb Pensiwn y Wladwriaeth) Sir y Fflint ac ein bod ni, fel Cyngor, yn penderfynu gweithredu i alw ar y Llywodraeth i wneud trefniadau trosiannol teg o ran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer yr holl ferched a aned yn y 1950au sy'n cael eu heffeithio gan newidiadau i oed Pensiwn y Wladwriaeth ac sydd wedi ysgwyddo baich y cynnydd i'r oedran hwnnw yn annheg, heb ddigon o rybudd’; a
- (b) Bod y Rhybudd o Gynnig gan y Cyngor hwn yn cael ei gefnogi fel a ganlyn: ‘Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Ganghellor y Trysorlys i roi diwedd ar bolisi Llywodraeth y DU o galedi ariannol yn ei gyllideb, sydd i gael ei chyflwyno ger bron y Senedd ar 22 Tachwedd. Mae'r Cyngor hwn yn credu bod caledi ariannol, ar ôl saith mlynedd ohono fel strategaeth wleidyddol ac economaidd, wedi'i wrthbrofi'n llwyr a'i fod wedi gwneud niwed aruthrol i'n gwasanaethau cyhoeddus a'n cymunedau ar draws Sir y Fflint a'r DU. Mae'r Cyngor yn credu na all y sector cyhoeddus yn Sir y Fflint nac ar draws y DU bellach oddef y gostyngiadau sylweddol i gyllid flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi gostwng 7% mewn termau real ers 2010, sydd gyfwerth â swm anhygoel o £1.2 biliwn. Mae'n bryd i Lywodraeth y DU gydnabod gwerth gwasanaethau cyhoeddus drwy ddarparu'r lefelau cyllid y mae eu hangen i ateb y galw cynyddol am wasanaethau. Mae'r Cyngor hwn yn cytuno i:
- Barhau i ymgyrchu dros yr wythnosau nesaf i gyfleo'r angen am ddiwedd ar galedi ariannol.
  - Parhau i fod yn agored am faint yr heriau ariannol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu yn y tymor byr a chanolig os nad yw'r caledi ariannol yn dod i

ben, a'r niwed y gallai hyn ei wneud i'n cymunedau a'n gwasanaethau lleol.

- Gofyn bod Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu at Ganghellor y Trysorlys ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ofyn am ddiwedd ar galedi ariannol ac i gyllid teg gael ei roi i Gymru, yn enwedig i alluogi'r Cyngor i ddiwallu'r angen a'r pwysau cynyddol o ran Addysg a Gofal Cymdeithasol.'

## 62. CAM UN CYLLIDEB CRONFA'R CYNGOR 2018/19

Cyflwynodd y Prif Weithredwr a Rheolwr Cyllid Corfforaethol ddiweddariad ar ragolygon Cyllideb Cronfa'r Cyngor ar gyfer 2018/19 yn dilyn Setliad Llywodraeth Leol Cymru Dros dro a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Ceisiwyd barn yr Aelodau ar ymateb i'r Llywodraeth ac i gynigion cynlluniau busnes portffolio'r Cyngor a gyflwynwyd i'w mabwysiadu'n ffurfiol.

Ymysg deilliannau allweddol y cyhoeddiad, dywedwyd bod nifer o grantiau penodol bellach wedi'u cynnwys yn y Setliad ac roedd effaith cyfrifoldeb newydd dros atal digartrefedd yn cael ei hasesu, ond nid oedd cyllid sylfaenol ychwanegol wedi'i ddarparu ar gyfer hyn. Roedd gwybodaeth ychwanegol a dderbyniwyd ers cyhoeddi'r Setliad Dros Dro'n amlygu gostyngiad yn y Grant Gwella Addysg a Grant Sengl yr Amgylchedd fel meysydd pryder. Roedd yr effaith gyffredinol wedi cynyddu'r bwlc a ragwelwyd yn flaenorol o £11.7 miliwn i £13.6 miliwn a gallai gael ei effeithio ymhellach gan orwariant o £1.1 miliwn yng Nghronfa'r Cyngor yn 2017/18.

Roedd dewisiadau cynlluniau busnes y portffolio a oedd werth £3.1 miliwn wedi'u cymeradwyo gan y Cabinet a'u hadolygu gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu priodol ac ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau. Y prif bwnc o ddiddordeb i'r cyhoedd oedd y cynnig i ddechrau codi tâl am gasglu gwastraff o'r ardd, nad oedd yn un o wasanaethau statudol y Cyngor. Roedd manylion ar gael yn yr adroddiad i gyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a oedd ar ddod. Roedd datganiadau gwytnwch ar gyfer pob portffolio'n dangos bod y rhan fwyaf o feisydd gwasanaeth ar lefel risg Felyn, a oedd yn adlewyrchu'r risg o fethiant cyn cyrraedd Cam 2 yn y broses.

Nodwyd amserlen ar gyfer proses y gyllideb er mwyn galluogi'r Cyngor i gymeradwyo cyllideb gytbwys i gyflawni ei ddyletswydd statudol. Byddai mwy o ddewisiadau heriol ar gyfer Cam 2 am gyfanswm o tua £6-8 miliwn yn cael eu hystyried gan Aelodau mewn gweithdy anffurfiol cyn ceisio cymeradwyaeth yn y cyfarfod nesaf, er mwyn caniatáu gweithredu a chanolbwytio'n gynnar ar ddewisiadau sy'n weddill ar gyfer Cam 3 yn y Flwyddyn Newydd.

Er bod rhai sylwadau anffurfiol eisoes wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar y Setliad Dros Dro, gofynnwyd i'r Aelodau gytuno ar ymateb corfforaethol yn dweud y dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gydnabod eu cyfrifoldebau eu hunain dros fwy o gyllid i ddiwallu anghenion llywodraethau lleol i ddiogelu gwasanaethau, fel oedd yn wir ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd. I atgoffa'r Aelodau am y sylwadau a wnaed i Lywodraeth Cymru, dosbarthwyd copïau o lythyr a anfonwyd at Mark Drakeford AC a oedd yn amlygu'r effaith yn genedlaethol, pa mor bwysig oedd gwneud achos ar y cyd a'r angen i Sir y Fflint dderbyn digon o gyllid i ddarparu'r gwasanaethau gorfodol.

## Ymateb drafft i'r Setliad Dros Dro

Gofynnodd y Prif Weithredwr i'r Aelodau gefnogi'r ymateb drafft canlynol i Lywodraeth Cymru, a oedd yn deillio o wybodaeth o drafodaethau drwy gydol proses y gyllideb:

Bod:

- y Setliad yn annigonol ar gyfer anghenion y Cyngor;
- y Cyngor yn ailgefnogi'r achos a wnaed ar 22 Awst fel y nodir yn y llythyr at Mark Drakeford AC;
- y Cyngor yn cefnogi'r tri chais penodol sydd dan ystyriaeth yng Ngham 2 – cyllid y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer y tair blynedd nesaf, y cap gofal cartref o £100 yr wythnos a 50% o Ardoll Prentisiaethau a delir gan y Cyngor i gael ei ddychwelyd i gynnal y cynllun cyfredol;
- y gostyngiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddarach i grantiau penodol – Grant Gwella Addysg a Grant Sengl yr Amgylchedd – yn cael ei wrthdroi gan Lywodraeth Cymru, beth bynnag fo Setliad y DU;
- angen cyllid ychwanegol ar gyfer llywodraeth leol gyfan yn unol ag achos CLILC a Sir y Fflint a wnaed yn y llythyr at Lywodraeth Cymru;
- Sir y Fflint mewn perygl penodol oherwydd ei sylfaen cyllid isel fel y mae'r set o ddatganiadau gwytwnwch yn ei ddangos;
- gwahoddiad i Weinidogion ac uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru i gyfarfod â Sir y Fflint ar frys i adolygu ein hachos arbennig – i'w hwyluso gan CLILC;
- achos cryf ar sail tystiolaeth yn cael ei wneud ar gyfer Sir y Fflint fel Cyngor sy'n perfformio'n dda ac sydd â chyfrifoldebau cymdeithasol, os na roddir cyllid ychwanegol i lywodraeth leol ar lefel ddigonol ar gyfer Sir y Fflint o dan y fformiwl rannu, i gael pecyn cyllid ychwanegol penodol i gynorthwyo i bennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2018/19 oherwydd y risgau i wasanaethau a threfniadau llywodraethu'r Cyngor.

Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Aelodau am gyfrannu tuag at yr ymgrych i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â chymhlethdodau'r sefyllfa ariannol a chyfleo pwysigrwydd y mater i'r cyhoedd. Roedd digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd a oedd ar hyn o bryd yn cael eu cynnal ar draws y sir wedi'u croesawu er nad oedd llawer wedi dod iddynt. Wrth ymateb i gynghorwyr a swyddogion a ofynnai beth y gallent hwy eu hunain ei wneud i gefnogi achos y Cyngor am gyllid teg a digonol, gofynnodd am ofal wrth ymgrychu. Er bod cychwyn/cefnogi ymgyrchoedd a deisebau lleol yn un ffordd o helpu, os oedd yr ymgrych neu'r ddeiseb yn unol â safbwyt y Cyngor, yna fe ddylai cydweithwyr (gan gynnwys swyddogion) fod â hawl i wneud penderfyniad personol ar gynnig eu cefnogaeth. Roedd eu cefnogaeth nhw i neges yr ymgrych ac nid, o reidrwydd, i'r un a'i cychwynnodd. Felly, os oedd yr un a gychwynnodd yr ymgrych yn blaidd wleidyddol neu'n undeb llafur, er enghraifft, lle'r oedd cefnogaeth i'r ymgrych yn unig, ni ddylid ystyried hyn fel cefnogaeth i'r blaidd neu'r undeb. Roedd yn bwysig bod y gwahaniaeth hwn yn amlwg wrth ymgrychu i warchod didueddrwydd - yn enwedig ar gyfer swyddogion.

Wrth gynnig yr argymhellion a wnaed gan y Prif Weithredwr, soniodd y Cyngorydd Aaron Shotton am fod yn unol ag amcanion Cynllun y Cyngor a'r heriau wrth ddod o hyd i gynigion i fantoli'r gyllideb. Er bod pob ymgais yn cael ei gwneud i ddiogelu gwasanaethau, roedd yn anorfod y byddai'r pwysau'n arwain at effeithiau go iawn.

Eiliwyd hyn gan y Cyngorydd Attridge.

Dyweddodd y Cyngorydd Heesom ei fod yn cefnogi'r cynigion Cam 1 ar amod, ond fe gododd bryderon cryf ynglŷn â rhagolygon Cam 2 ac effaith unrhyw gynnydd arall ym mwlch y gyllideb. Dywedodd nad oedd adnoddau'n cael eu rhannu'n gyfartal ac nad oedd effaith elfennau cynlluniau strwythurol ar gymunedau, a oedd wedi'i chodi yn y gorffennol, wedi'i chydhabod eto. Teimlai bod problemau difrifol yn y datganiadau gwytnwch nad oedd y broses Trosolwg a Chraffu wedi cyfeirio atynt yn ddigonol, er enghraift, buddsoddi ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenciad ac ysgolion bach gwledig.

Dyweddodd y Prif Weithredwr bod y pwylgorau Trosolwg a Chraffu wedi adolygu eu rhagleni gwaith eu hunain a oedd wedi'u galluogi i gymryd rôl weithredol ar faterion o fewn eu cylch gwaith, er enghraift, yr eitem ar daliadau gwastraff gardd. Mewn ymateb i sylwadau eraill gan y Cyngorydd Heesom, eglurodd y byddai'r Cyngor yn parhau i ddarparu'r rhan fwyaf helaeth o'i wasanaethau presennol yn uniongyrchol, os oedd eu perfformiad a'u gwerth am arian yn parhau.

Rhoddyd eglurhad i'r Cyngorydd Peers ar y Strategaeth Wastraff ac ar ailstrwythuro timau yn y Gwasanaethau Cynnal a Chadw Eiddo Corfforaethol a Dylunio a Rheoli Prosiectau. O ran yr awgrym i uno Newid Sefydliadol yn un portffolio i arbed arian, amlygwyd pa mor bwysig oedd cadw'r ddau fel prosiectau gwaith ar wahân i gefnogi'r strategaethau digidol ac adeiladu.

O ran Sir y Fflint yn Cysylltu, darparodd y Prif Swyddog (Cymuned a Menter) fanylion cynlluniau i ailbenodi swyddi ac adolygu oriau agor, yn enwedig yn yr Wyddgrug ac ym Mwcle fel y cyfleusterau a oedd yn denu'r nifer leiaf o ymwelwyr, i arbed arian.

Dyweddodd y Prif Swyddog Dros Dro (Addysg ac Ieuenciad) y byddai'r cynnig i ostwng cyllid y Cyngor ar gyfer darpariaeth addysg feithrin i'r lleiafswm statudol yn arbed ychydig iawn o arian ac yn rhoi pwysau costau ar ysgolion.

Cododd y Cyngorydd McGuill bryderon ynglŷn ag effaith ar dreithi busnes o 20% a godwyd ar elusennau a grwpiau fel sefydliad y Sgwiliaid, a allai hefyd effeithio ar grwpiau sydd â Throsglwyddiadau Asedau Cymunedol. Er bod y Prif Weithredwr yn rhannu'r pryderon, dywedodd y byddai'n bwysau arall ar gyllideb y Cyngor pe bai gofyn i'r Cyngor gwrdd â'r gost hon. Roedd cronfa galedi ar gael i helpu ag achosion penodol.

Wrth ymateb i gwestiwn gan y Cyngorydd Carver, darparodd y Prif Swyddog (Cymunedau a Menter) wybodaeth ar ddewisiadau a oedd yn cael eu datblygu ar gyfer 2019/2020 i gynnig ystod ehangach o wasanaethau yn rhan o'r Gwasanaeth Cofrestru.

Cymeradwywyd yr argymhellion wrth bleidleisio arnynt.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai copi o'r ymateb i Ysgrifennydd y Cabinet yn cael ei rannu gydag Aelodau, ynghyd â'r ymateb i lythyr blaenorol y Cyngor (22 Awst).

**PENDERFYNWYD:**

